Cyngor Tref
Rhuddlan
Town Council

**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau, 14 Tachwedd 2024**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Val Simmons (Maer)
Y Cynghorydd Jackie Burnham (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Reg Davies
Y Cynghorydd Mike Elgin
Y Cynghorydd Mike Kermode
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Steve Wilson – Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol

Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod.

**1. Cyflwyno Gwobrau**
Croesawodd y Maer enillwyr y gwobrau, eu cyfeillion a'u teuluoedd.
Cyflwynodd y Maer:

- Gwobr Aelwyn Morgan 2024 i Maggie Thompson-Williams.
- Medal y Cyn-Faeres i Marianne Elgin.
- Gwobr Amgylcheddol John Woods, Cymru yn ei Blodau, i'r Cynghorwyr Arwel Roberts a Mike Kermode a oedd yn cynrychioli Anita Fagan o Warchodfa Natur Rhuddlan.
- Tystysgrif Rhagoriaeth Eich Cymdogaeth yr RHS, Cymru yn ei Blodau, i Gymdeithas Rhandiroedd Rhuddlan a gafodd ei chynrychioli gan Dafydd Lloyd-Borland a Pat Williams
- Tystysgrif Eithriadol Lefel 5 yr RHS, Cymru yn ei Blodau, i Glwb Bowlio Rhuddlan, a gafodd ei gynrychioli gan y Cynghorydd Mike Elgin, y Cynghorydd Arwel Roberts a Max Richardson

Fe wnaeth y Maer longyfarch yr holl enillwyr am eu cyfraniad sylweddol i'r gymuned yn Rhuddlan.

Cafodd y cyfarfod ei recordio o'r pwynt hwn (sain yn unig)

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Gareth Rowlands – salwch, derbyniwyd yr absenoldeb gan y Cyngor
Swyddog CSDd Gary Williams

Croesawodd y Maer bawb a oedd yn bresennol ac fe wnaeth atgoffa'r Aelodau i ddilyn y Cod Ymddygiad a bod yn barchus i aelodau eraill.

**3. Datgan buddiant**
Y Cynghorydd Arwel Roberts – eitem rhif 13 ar yr agenda.

**4. Materion Brys**
Dywedodd y Maer fod Gorymdaith Sul y Cofio wedi bod yn llwyddiant mawr a chynigiodd fod y cyngor yn cyfrannu £200 i Fand Gorymdeithio'r Rhyl a £100 i elusen Blind Veterans UK i gydnabod cyfraniad Lisa Lee a fu'n cario baner y Cyngor.
Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**
Hefyd, gofynnodd y Cyngor i'r Clerc ysgrifennu at Stuart Williams i ddiolch iddo am ei waith ffotograffiaeth gwych a hefyd Tim Wynn-Jones am ei waith fel Prif Swyddog yr Orymdaith.

**5. Materion yr Heddlu**
Cyflwynodd y Clerc y ffigyrau troseddu ar gyfer mis Medi.

**6a. Cofnodion Cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2024**
Yn amodol ar newid "Beyond" i "Behind" the gate (yn y cofnodion Saesneg), cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan y Cynghorydd Jackie Burnham, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.** Yna llofnodwyd y Cofnodion gan y Maer

**6b. Cofnodion y Pwyllgor Digwyddiadau a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2024.** Cyflwynodd y Cynghorydd Mike Kermode y cofnodion. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan y Cynghorydd Mike Elgin, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd.**

**7. Adroddiad ar Gynnydd ar sail y Cofnodion**
Rhoddodd y Clerc ddiweddariad i'r cynghorwyr ar y materion canlynol:

- Llythyr ynghylch ymddiswyddiad a anfonwyd at Mr Williams.
- Mae Pwyllgor Safonau CSDd wedi derbyn gwahoddiad agored i fynychu cyfarfod y cyngor yn y dyfodol.
- Rhagor o wybodaeth gan CSDd yn ymwneud â'r toiledau cyhoeddus.
- Prynwyd yr offer ar gyfer y Clwb Ieuenctid.
- Bydd yr hyfforddiant Cod Ymddygiad yn cymryd 2 awr felly bydd y Clerc yn holi i weld a yw'r Swyddog Monitro ar gael ac yn gwneud y trefniadau.
- Bydd y baneri yn chwifio yn y castell yn y gwanwyn, unwaith y bydd Cadw wedi cwblhau'r gwaith trwsio.
- Mae'r fainc ar lan yr afon yn cael ei chadw mewn storfa yn y Rhyl.
- Ar fater e-sgwteri a beiciau, mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ac mae'n aros am ateb.

- Dywedodd y Maer nad oedd y taliadau parcio yn effeitho ar y Ganolfan Gymuned a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y preswyliwr dall sy'n cael problemau i fynd â'r ci am dro.

**8. Adroddiadau gan**

a. Roedd y Maer a'r Dirprwy Faer wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig gan fod cyfarfod y Ganolfan Gymuned wedi'i aildrefnu ar gyfer heno felly ni fyddai'n gallu bod yn bresennol.
**Derbyniwyd yr adroddiad.**

b. Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu ei adroddiad ac roedd angen i'r Aelodau gymeradwyo'r mater canlynol.

- Adborth gan werthwyr y Farchnad Gymunedol yn gofyn a fyddai'n bosibl cael gostyngiad petaent yn ymrwymo i fynychu'r 10 marchnad. Cyngiodd y Cynghorydd Jackie Burnham y gellid cynnig un am ddim petaent yn ymrwymo i fynychu 10 marchnad, ar yr amod eu bod nhw'n rhoi gwybod i'r cyngor os na fyddant yn dod i'r farchnad fel bod modd i werthwr arall ddefnyddio'r stondin. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

**Derbyniwyd yr adroddiad.**

**9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi dosbarthu ei adroddiad ysgrifenedig er sylw'r Aelodau. Hefyd, rhoddodd y manylion diweddaraf i'r aelodau am y safleoedd yn ymwneud â Rhuddlan yn safleoedd ymgeisio'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys Ffowndri Rhuddlan a Maes Sioe'r Rhyl ar gyfer datblygiad defnydd cymysg a 192 o gartrefi ychwanegol yn yr ardal y tu ôl i Tirionfa. Rhoddodd ddiweddariad hefyd ar y cyfarfod diweddar i drafod Teledu Cylch Cyfyng (TCC).
Dywedodd y Cynghorydd Ivor Beech wrth y cyngor ei fod wedi nodi darn o dir mae'n berchen arno, fel y gwnaeth Robert Williams, y gallai Clwb Pêl-droed Rhuddlan ei ddefnyddio yn y dyfodol, ond roedd yn ddyddiau cynnar iawn ac roedd yn ymddangos bod y clwb wedi ymgartrefu ym Mhengwern.
**Derbyniwyd yr adroddiad**

**10. Cynllunio**

a. 44/2024/1369/TP – Lleihau brig un sycamorwydden ac un ffawydden goch 20% yn amodol i Orchymyn Cadw Coed Cyngor Sir Ddinbych rhif 1/2004 yn 7 Tirionfa, Rhuddlan, Sir Ddinbych, LL18 6LT. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode ac eiliodd y Cynghorydd Jackie Burnham nad oedd gan y cyngor sylwadau nac unrhyw wrthwynebiad. **Penderfynwyd.**

b. 44/2024/1477/PS – Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio cod rhif 44/2017/0153 i ganiatáu addasiadau i'r dyluniad yn Pen-Y-Lon, Ffordd Dyserth, Rhuddlan, Sir Ddinbych, LL18 5RD. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode ac eiliodd y Cynghorydd Reg Davies nad oedd gan y cyngor sylwadau nac unrhyw wrthwynebiad. **Penderfynwyd.**

c. 44/2024/1479/HH – Codi estyniad unllawr yng nghefn annedd a gwaith cysylltiedig yn Oaklands, Abbey Road, Rhuddlan, Sir Ddinbych LL18 5RH. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode ac eiliodd y Cynghorydd Mike Elgin nad oedd gan y cyngor sylwadau nac unrhyw wrthwynebiad. **Penderfynwyd.**

**11. Y Gyllideb a Materion Ariannol**

a. Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad archwilio “Amodol” ar gyfer 2023/24. Esboniodd fod y rheswm yn ymwneud â’r un mater cadw llyfrau ag yn adroddiad archwilio 2022/23.

b. Trafododd y cynghorwyr y ceisiadau am grantiau:

- North Wales Superkids, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts grant o £50, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd.**
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, cynigiodd y Cynghorydd Jackie Burnham grant o £50, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**
- Ambiwlans Awyr Cymru, cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode grant o £500, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

c. Ni chafodd syniadau eu cyflwyno ar gyfer cyllideb 2024/25.

d. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau fod angen newid y rheol sefydlog yn ymwneud â’i gyflog i £2050.06 o fis Rhagfyr. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

e. Cyflwynyd y rhestr o daliadau sy’n ddyledus. Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylid derbyn y rhestr, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd**

**12. Datganiad gan Mike Elgin ynglŷn â pharcio ar Abbey Road**

Darllenodd y Cynghorydd Mike Elgin ei ddatganiad i’r Cynghorwyr ynglŷn â gwybodaeth anghywir a roddwyd i gynghorwyr gan y Cynghorydd Ann Davies yng nghyfarfod mis Hydref. Fodd bynnag, nid oedd y Cynghorydd Ann Davies yn bresennol i ymateb i’r mater felly cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod y Clerc yn ysgrifennu ati i ofyn am ymateb ffurfiol i ddatganiad y Cynghorydd Elgin, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

Gofynnodd y Cynghorydd Ivor Beech a oedd y Cynghorydd Elgin wedi datgan buddiant ym mater llinellau melyn Abbey Road gan fod ganddo ddiddordebau busnes yno. Atebodd y Cynghorydd Elgin ei fod wedi gwneud hynny pan drafodwyd y mater gan y cynghorwyr.

Dywedodd y Cynghorwyr Val Simmons ac Arwel Roberts eu bod wedi siarad â’r AS Gareth Davies ac roedd y ddau yn cyd-fynd â datganiad y Cynghorydd Elgin.

Fe wnaeth y Cynghorydd Jackie Burnham atgoffa’r Cynghorydd Elgin y gallai gyfeirio’r mater i’r Ombwdsmon ond dywedodd y Cynghorydd Mike Elgin y byddai’n well ganddo ddatrys y mater yn lleol.

**13. Cwyn ynglŷn â goleuadau’r ardal chwaraeon amlbwrpas (MUGA)**

Rhannodd y Clerc gŵyn a dderbyniwyd gan breswyliwr y mae ei eiddo yn ffinio â Chae’r Llyngesydd, ynglŷn â goleuadau’r MUGA sy’n effeithio ar ei eiddo. Trafododd yr aelodau y mater ac atebion posibl; cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod y Clerc yn ymchwilio i

weld pa mor effeithiol, ymarferol, a chostus, fyddai gosod gorchuddion, yna gallai'r Maer a'r Dirprwy Faer benderfynu bwrw ymlaen yn hytrach nag aros am y cyfarfod nesaf. Eiliwyd gan y Cynghorydd Reg Davies. **Penderfynwyd.**
Fe wnaeth y Cynghorydd Arwel Roberts atgoffa'r Aelodau fod angen sicrhau na fyddai hyn yn effeithio ar y camerau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV).

**14. Darparu hyfforddiant CPR a diffibrilwyr**
Esboniodd y Cynghorydd Mike Kermode y canllawiau newydd yn ymwneud â CPR a'r defnydd o Diffibrilwyr.
Dywedodd y Clerc fod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn cynnig hyfforddiant am ddim. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod y Clerk yn ceisio dod o hyd i hyfforddiant i breswylwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw'n agos i'r diffibrilwyr, eiliwyd gan y Cynghorydd Jackie Burnham. **Penderfynwyd.**

**15. Materion Cymunedol**
Cyfeiriodd y Cynghorydd Jackie Burnham at broblem ar y llwybr ar hyd glan yr afon lle'r oedd crac mawr wedi ymddangos, a charreg palmant rhydd ar y Stryd Fawr gyferbyn â hysbysfwrdd y Cyngor.  Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i CSDd.

Rhannodd y Cynghorydd Arwel Roberts wybodaeth gan Robert Green o Gyfoeth Naturiol Cymru am gyfrifoldebau CNC.

Gofynnodd y Cynghorydd Reg Davies a fyddai'n bosibl gosod arwyddion ar y lan i nodi safle'r Hen Ffowndri. Trafodwyd y mater gan y cynghorwyr a chynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylai'r Cyngor ysgrifennu i CSDd a gofyn am osod arwydd a bwrdd gwybodaeth ar y safle pan fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**

Rhannodd y Cynghorydd Ivor Beech wybodaeth am fenter Castell Howell i gynyddu faint o lysiau sy'n cael eu tyfu yng Nghymru i'w defnyddio mewn ysgolion ac adeiladu cyhoeddus eraill a dywedodd fod dros 200 o ffermydd wedi ymrwymo i blannu o leiaf ½ erw o lysiau ar eu ffermydd. Mynegodd bryderon hefyd ynglŷn â'r ffaith y gallai codi tâl am barcio effeithio ar fusnesau lleol a dywedodd fod sinema'r Rhyl yn enghraifft o hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Val Simmons fod Cyngor Tref Rhuddlan wedi cael cyfle i helpu i ddathlu achlysuron arbennig ac arwyddocaol preswylwyr.

**Rhan 2 Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd**
Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod. Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylid symud i ran 2, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd**

Rhoddwyd y gorau i recordio'r cyfarfod a gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd adael

**16. Cofnodion y Pwyllgor Personél 29 Hydref 2024**

Roedd y Cofnodion wedi cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod a chyflwynodd y Cynghorydd Mike Kermode y cofnodion. Dywedodd y dylid talu ôl-daliad o tua £66 i ystad y diweddar Paul Smith. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

Fe wnaeth y Maer ddiolch i bawb am ddod, a daeth â'r cyfarfod i ben.

**18. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 12 Rhagfyr 2024, Cyfarfod y Cyngor Llawn am 7pm**

**Llofnodwyd ………………………………………………………………………………… Y Cynghorydd Val Simmons (Maer)**